

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Cynllun Gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar ôl Ymweliad ag Ysbyty Tywysoges Cymru ar 3 a 4 Gorffennaf 2012

Ymwelodd y tîm â dwy ward: Ward 4.

Argymhellion AGIC	Cam(au) Gweithredu	Rheolwr / Rheolwyr Arweiniol	Dyddiad / Amserlen	Yr Hyn a Gyflawnwyd / Dyddiad Cwblhau
Amgylchedd y Ward				
Sicrhau bod cofnodion a gwybodaeth am y cleifion yn cael eu diogelu bob amser.	<p>-Sicrhau bod yr holl staff yn cau unrhyw sgriniau sy'n cynnwys gwybodaeth am gleifion ar ôl eu defnyddio.</p> <p>-Sicrhau bod nodiadau'n cael eu rhoi yn ôl yn y troliâu ar ôl eu defnyddio.</p> <p>-Sicrhau bod clerck y ward yn dychwelyd nodiadau i'r cofnodion meddygol yn brydlon.</p> <p>- Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o Bolisiâu'r Bwrdd Iechyd ynglŷn â chofnodion a gwybodaeth am gleifion.</p>	<p>Rheolwr y Ward Allison Rees/Prif Nyrsys y Ward.</p> <p>Archwiliadau ar hap gan yr Uwch Nyrs Glinigol Alison Cobley</p> <p>Archwiliad misol trwy'r cynllun gweithredu Hanfodion Gofal a Metrigau Nyrsio.</p>	Ar unwaith gydag adolygiad misol.	Gweithredwyd ac yn parhau
Agwedd ac ymddygiad y staff a'u gallu i ddarparu gofal ag urddas				
Sicrhau bod yr holl staff ar y wardiau yn gwisgo bathodynau adnabod pan fyddant ar ddyletswydd.	- Sicrhau bod gan yr holl staff fathodynau adnabod cyfredol a'u bod yn eu gwisgo bob amser.	<p>Rheolwr y Ward a Phrif Nyrsys y Ward.</p> <p>Archwiliadau ar hap gan y Pennaeth Nyrsio/Uwch Nyrs pan fyddant ar eu hymweliadau pyramid.</p>	Ar unwaith	Mis Tachwedd 2012 Gweithredwyd

	-Prif Nyrsys y ward i fonitro bod y staff yn cydymffurfio	Cynhelir archwiliadau ar hap hefyd gan AGIC a'r Cyngor Iechyd Cymuned		
Rheoli cleifion sy'n ddryslud neu sydd â dementia				
Sicrhau bod yr holl staff yn dilyn yr hyfforddiant gorfodol perthnasol	-Hyrwyddwyr Dementia i ledaenu gwybodaeth a sgiliau ymhlith y tîm. -Y staff i fynychu dyddiau astudio perthnasol. - Sicrhau bod pob dadansoddiad o anghenion hyfforddiant/y cofnodion i gyd yn gywir ac yn gyfredol.	Hyrwyddwr Dementia Rheolwr y Ward / prif nyrsys. Archwiliad trwy'r Metrigau Nyrsio. Gwasanaethau Rhanbarthol Hwylusydd / Arweinydd Addysg.	Mis Ebrill 2013	Gweithredwyd
Sicrhau bod y staff yn cael cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth ynglŷn â chleifion sy'n ddryslud / sydd â dementia.	-Mae'r ward wedi penodi dau Hyrwyddwr Dementia. -Mynd i gyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y Cynllun Pili Pala, sydd wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus ar y ward. - Byrddau Cipolwg ar y Cleifion a Thrawsnewid Gofal. -Nyrs Staff yn dilyn Rhaglen Hyrwyddwr Dementia.	Rheolwr y Ward a Hyrwyddwyr Dementia. Hwyluswyr /Arweinydd Addysg	Parhaus / Archwilio'n Fisol Adborth trwy'r Briffiau Tîm	Mis Ebrill 2013
Cynllunio a darparu gofal				

<p>Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol bod y cleifion yn cael eu hysbysu'n llawn a'u cynnwys mewn trafodaethau am eu cyflwr a'u triniaeth</p>	<p>-Sicrhau bod yr holl staff yn trafod y cyflwr a'r driniaeth gyda'r claf ac yn sicrhau bod y trafodaethau hyn yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Trosglwyddir gofal cleifion wrth ymyl y gwely ar ward 4, ac anogir y cleifion i gymryd rhan. Anogir perthnasau a gofalwyr i gymryd rhan hefyd</p>	<p>Rheolwr y Ward / Prif Nyrsys y Ward. Archwiliadau ar hap gan uwch nyrsys clinigol</p>	<p>Archwiliadau Misol Cynlluniau gweithredu Hanfodion Gofal. Trawsnewid gofal. Adolygiadau POINT. Arolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Ymweliadau gan y Cyngor Iechyd Cymuned. Arolygon Cleifion. Metrigau Nyrsio.</p>	<p>Gweithredwyd ac yn parhau i gael ei fonitro.</p>
<p>Sicrhau bod gan yr holl gleifion mewnol gynlluniau gofal sy'n cael eu haddasu i'w hanghenion penodol, eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.</p>	<p>-Y ward bellach yn defnyddio Asesiad Unedig newydd sy'n fwy penodol i anghenion unigol. Sicrhau bod y cleifion a'r gofalwyr yn cael eu cynnwys wrth bennu gofal -Sicrhau bod y staff yn diweddarau cynllun gofal unigol cleifion yn rheolaidd. - Rheolwr y Ward a Phrif Nyrsys y Ward i fonitro/ Archwilio trwy'r Metrigau Nyrsio a Hanfodion Gofal.</p>	<p>Rheolwr y Ward / Prif Nyrsys y Ward. Metrigau Nyrsio Hanfodion Gofal</p>	<p>Mis Mehefin 2013</p>	<p>Mis Mehefin 2013</p>
Rheoli Cofnodion				
<p>Sicrhau bod y staff yn llenwi nodiadau cleifion ar unwaith ar ôl darparu gofal, triniaeth neu ar adegau prydu bwyd ac ati.</p>	<p>-Anogir yr holl staff i ddiweddarau nodiadau a chynlluniau gofal unigol y cleifion trwy gydol y sifft wrth i'r driniaeth gael ei darparu.</p>	<p>Rheolwr y Ward / Prif Nyrsys Staff Nyrsio Uwch Nyrs Glinigol Archwiliadau misol.</p>	<p>Archwiliadau Misol ar unwaith ac yn barhaus Metrigau Nyrsio Hanfodion Gofal Arolygiadau AGIC</p>	<p>Mis Mehefin 2013</p>

<p>Sicrhau na ddefnyddir talfyriadau yng nghofnodion y cleifion er mwyn atal unrhyw ddryswch neu gamddehongli gwybodaeth.</p>	<p>-Sicrhau bod yr holl staff yn cofnodi'n eglur yng nghofnodion y cleifion ac yn osgoi defnyddio talfyriadau. -Rheolwr y Ward a Phrif Nyrsys y Ward i archwilio.</p>	<p>Rheolwr y Ward / Prif Nyrsys Archwiliadau gan y Nyrs Arweiniol Metrigau Nyrsio</p>	<p>Archwiliadau misol parhaus</p>	<p>Gweithredwyd ac yn parhau</p>
Hylif a Maeth				
<p>Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol na ddylai neb darfu ar y cleifion yn ystod adegau prydau bwyd a ddiogelir ar y wardiau.</p>	<p>-Sicrhau bod yr holl staff yn mynd at y tîm meddygol i sicrhau nad ydynt yn cynnal rowndiau a thriniaethau arferol yn ystod adegau prydau bwyd. -Arddangosir posteri yn y ward ac ar hysbysfwrdd y tu allan i'r ward. -Sicrhau bod ymwelwyr / perthnasau yn cael eu hysbysu. -Annog teulu / ffrindiau i gynorthwyo'r cleifion ar adegau prydau bwyd, pan nad yw'r cleifion yn gallu bodloni eu hanghenion maeth eu hunain.</p>	<p>Rheolwr y Ward / y staff i gyd Tîmau meddygol Adrannau Eraill</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Gweithredwyd ac yn parhau</p>

Sicrhau bod dewis priodol o brydau bwyd ar gael ar fwydlenni'r cleifion.	-Mae bwydlenni newydd wedi'u cyflwyno'n ddiweddar trwy'r Bwrdd Iechyd. -Sicrhau bod gan y staff gysylltiadau cyfathrebu da â'r adran arlwygo er mwyn cyfleu ceisiadau penodol y cleifion.	Rheolwr y Ward / y staff i gyd. Staff Arlwygo. Dietegydd Nyrs gyswllt maeth. Mae rheolwyr wardiau ac uwch nyrsys yn rhan o'r grŵp llywio maeth Mae rheolwyr wardiau yn mynd i Gyfarfod Bwydlen ym mis Tachwedd.	Adolygiad dyddiol Arolygon bodlonrwydd cleifion	Mis Mai 2013
Sicrhau bod y cleifion i gyd yn cael eu goruchwyllo ar adeg prydau bwyd hyd yn oed os ydynt yn gallu bwyta'u prydau bwyd heb gymorth.	-Mae aelod o staff yn y cilfachau ar adegau prydau bwyd i gynorthwyo'r cleifion yn ôl yr angen.	Rheolwr y Ward / y staff i gyd Annog teulu / perthnasau / ffrindiau i gyfrannu	Yn ddyddiol yn unol â'r cynllun gofal.	Gweithredwyd ac yn parhau
Briwiau pwyso				
Sicrhau bod yr holl asesiadau Waterlow yn cael eu cynnal yn llawn	-Sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu hasesu'n llawn ar adeg eu derbyn. -Sicrhau bod y staff yn ailasesu Waterlow bob 48 awr neu os yw cyflwr y claf yn newid. -Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r bwndel SKIN. -Prif Nyrsys y Ward i archwilio'n rheolaidd.	Rheolwr y Ward / Prif Nyrsys y Ward / staff Hyfywedd Meinwe	Parhaus Metrigau Nyrsio a chroesau diogelwch	Gweithredwyd ac yn parhau
Gofal a hylendid personol				

Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o bob agwedd ar ddarpariaeth gofal personol y cleifion	Mae'r holl gleifion yn cael eu hasesu ar sail unigol a darperir gofal personol yn unol â'r asesiad	Rheolwr y Ward	Ar unwaith	Cwblhawyd ac atgoffir y staff yn barhaus.
Sicrhau bod y cleifion yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn adegau pryd bwyd ar y wardiau.	-Mae'r holl gleifion i gael cyfle i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd. -Pan fo'n bosibl, annog y cleifion i olchi eu dwylo mewn sinc. -Os nad yw'r claf yn gallu mynd at y sinc, darparu llieiniau gwlyb sebonllyd.	Rheolwr y Ward / y staff i gyd	Dyddiol	Gweithredwyd ac yn parhau
Sicrhau bod y staff yn darparu gofal personol o ran sicrhau hylendid yr ewinedd.	Sicrhau bod y staff yn archwilio ewinedd dwylo a thraed y cleifion pan fyddant yn cael eu derbyn. Sicrhau bod ewinedd y cleifion yn cael eu glanhau a'u torri pan fo hynny'n briodol. Sicrhau bod y staff yn atgyfeirio at y gwasanaeth podiatreg pan fo'n ofynnol.	Rheolwr y Ward / y staff i gyd	Dyddiol yn unol â'r cynllun gofal.	Gweithredwyd ac yn parhau
Sicrhau bod yr holl ofal a hylendid personol a ddarperir i'r cleifion yn cael eu cofnodi'n eglur yn nodiadau'r cleifion.	-Sicrhau bod y staff yn cofnodi pob agwedd ar ofal personol yn nodiadau'r cleifion gan gynnwys ewinedd, gwallt, newid dillad ac ati. -Rhoddwyd bwndel gofal y geg ar waith yn ddiweddar ar y ward. -Rheolwr y Ward / prif nyrsys y ward i archwilio.	Rheolwr y Ward / y staff i gyd	Archwiliadau misol Metrigau Nyrsio Hanfodion Gofal	Gweithredwyd ac yn parhau

Anghenion o ran Mynd i'r Tŷ Bach

<p>Sicrhau bod unrhyw glaf y nodwyd yn ei asesiad bod ganddo broblemau anymataliaeth yn derbyn asesiad mwy manwl a bod cynllun gofal priodol yn cael ei sefydlu</p>	<p>-Prif Nyrsys y Ward i gydgysylltu â'r Nyrsys Cynghori ynglŷn ag Anymataliaeth i drafod asesiadau. -Mae'r ward wedi pennu Hyrwyddwr Ymataliaeth sy'n dilyn hyfforddiant i gael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn rhaedru'r wybodaeth i'r staff.</p>	<p>Rheolwr y Ward / Prif Nyrsys y Ward a'r Hyrwyddwr Ymataliaeth</p>	<p>Archwiliadau misol</p>	<p>Gweithredwyd ac yn parhau</p>
---	---	--	---------------------------	----------------------------------

Seinyddion

<p>Sicrhau bod gan bob claf seinydd sy'n gweithio a'i fod gallu ei gyrraedd.</p>	<p>-Rownd ddiogelwch wedi ei gweithredu ar y ward – sy'n cynnwys sicrwydd bod y seinyddion o fewn cyrraedd y cleifion -Hysbysir yr adran ystadau ar unwaith am unrhyw seinyddion diffygiol</p>	<p>Rheolwr y Ward / y staff i gyd</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Gweithredwyd ac yn parhau</p>
--	--	---------------------------------------	----------------	----------------------------------

<p>Sicrhau bod seinyddion argyfwng ar gael ym mhob un o dai bach ac ystafelloedd ymolchi / cawod y cleifion</p>	<p>-Mae'r seinyddion bellach yn gweithio ym mhob ystafell ymolchi / tŷ bach. -Os oes un sy'n ddiffygiol, hysbysir yr adran ystadau ar unwaith.</p>	<p>Rheolwr y Ward / y staff i gyd Ystadau</p>	<p>Archwiliadau dyddiol</p>	<p>Gweithredwyd ac yn parhau</p>
---	--	---	-----------------------------	----------------------------------

Cyfathrebu

<p>Sicrhau bod systemau wedi'u sefydlu ar y wardiau i gynorthwyo cleifion â namau ar eu synhwyrau i gyfathrebu.</p>	<p>-Mae'r staff yn cydgysylltu â'r perthnasau / gofalmwr ynglŷn ag anghenion cyfathrebu. -Cydgysylltu â'r staff Therapi Galwedigaethol a Therapi Iaith a Lleferydd ynglŷn â chymhorthion gweledol h.y. siartiau / ysgogiadau. -Mae rhifau cyswllt ar gael trwy'r switsfwrdd os oes angen iaith arwyddion neu braille ac ati ar glaf.</p>	<p>Rheolwr y Ward / y staff i gyd</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Gweithredwyd ac yn parhau</p>
<p>Sicrhau bod y cleifion yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau gyda'r staff ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth</p>	<p>-Mae'r holl staff yn trafod gofal a thriniaeth gyda'r cleifion. Anogir y cleifion hefyd i drafod gyda'r tîm meddygol yn ystod eu rowndiau ar y ward. -Anogir cleifion i drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt -Mae'r staff yn ailadrodd unrhyw wybodaeth a roddir iddynt mewn modd y maent yn ei ddeall.</p>	<p>Rheolwr y Ward / y staff i gyd</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Gweithredwyd ac yn parhau</p>
<p>Rheoli meddyginiaeth a rheoli poen</p>				

<p>Sicrhau y cynhelir asesiad, ar ôl canfod bod claf mewn poen.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Anogir y cleifion i roi gwybod i'r staff os ydynt mewn unrhyw boen. - Gofynnir i'r cleifion a oes ganddynt boen a chofnodir hyn ar siartiau NEWS a rowndiau diogelwch. - Caiff achosion o boen eu cofnodi a'u gwerthuso yn y dogfennau nyrsio. 	<p>Rheolwr y Ward / y staff i gyd</p>	<p>Pob dydd</p>	<p>Gweithredwyd ac yn parhau</p>
<p>Sicrhau bod systemau wedi'u sefydlu i liniaru'r perygl y gallai'r cleifion a phobl heb awdurdod gael gafael ar feddyginiaeth.</p>	<p>Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r polisiau Cyffuriau a Reolir / Meddyginiaeth a'r polisiau ar gyfer eu cadw'n ddiogel. Arddangosir croesau diogelwch yn yr ystafell driniaeth, ac mae'r nyrs sydd yng ngofal pob sifft yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod yr holl gypyrddau wedi eu cloi ac yn llofnodi croes ddiogelwch i nodi hynny.</p> <p>-Cynhaliwyd asesiadau risg sy'n sicrhau bod yr ardal yn ddiogel a bod y cwpwrdd meddyginiaeth yn addas ar gyfer ei ddiben.</p>	<p>Rheolwr y Ward / y staff i gyd</p> <p>Archwiliadau Misol - metrigau nyrsio</p> <p>Fferyllydd Arweiniol</p> <p>Uwch fferyllydd clinigol</p> <p>archwiliadau bob 3 mis</p>		<p>Gweithredwyd</p>
<p>Cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion</p>				

<p>Sicrhau bod cleifion, a phan fo'n briodol, eu perthnasau, yn cael eu hysbysu a'u cynnwys yn y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau'r claf.</p>	<p>-Anogir yr holl staff i gynnwys cleifion a pherthnasau wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion. Mae cleifion a pherthnasau yn cael eu cynnwys, pan fo'n briodol, yng nghyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol.</p> <p>- Mae'r tîm Nyrsio a Meddygol wedi eu hysbysu bod rhaid iddynt gofnodi'r dyddiad y disgwylir i'r claf gael ei ryddhau yn y nodiadau meddygol, a hysbysu'r claf am hyn (gan bwysleisio mai amcangyfrif o'r diwrnod ydyw). Cofnodir y dyddiadau hyn ar y bwrdd Ciplwng ar y Claf ac ar ddalenni trosglwyddo cleifion.</p> <p>-Mae Therapyddion Galwedigaethol yn asesu cleifion ac yn aml byddant yn ffonio perthynas / gofawyr i drafod anghenion o ran rhyddhau'r claf.</p>	<p>Rheolwr y Ward / y staff i gyd.</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Gweithredwyd ac yn parhau</p>
<p>Gweithgareddau</p>				
<p>Ystyried ffyrdd o ddarparu gweithgareddau i'r cleifion.</p>	<p>-Mae teledu a radio ar gael i bob claf.</p> <p>-Mae jig-sos, cardiau chwarae, cylchgronau a phapurau newydd ar gael hefyd.</p> <p>- Mae troli siop yn ymweld â'r ward bob dydd.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Gweithredwyd</p>	<p>Gweithredwyd</p>

<p>Sicrhau bod ffonau clust ar gael ar gyfer pob set deledu unigol yn y gilfach fawr ar Ward 4.</p>	<p>-Mae ffonau clust bellach ar gael wrth bob gwely ar y ward, gan gynnwys y cilfachau sydd â theledu unigol. -Cedwir ffonau clust ychwanegol ar y ward ac mae'r staff yn ymwybodol y gallwn gael mwy o ffonau clust trwy radio'r ysbyty.</p>	<p>Rheolwr y Ward / y staff i gyd</p>	<p>Gweithredwyd</p>	<p>Gweithredwyd</p>
---	---	---------------------------------------	---------------------	---------------------